

# Cylchlythyr Pont Tyn-y-bryn

Awst 2023

## Croeso i rifyn cyntaf ein cylchlythyr ar gyfer y prosiect yma.

**Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi penodi Balfour Beatty'n brif gontractwr i gyflawni gwaith ar bont droed Tyn-y-bryn ac o'i hamgylch . Cafodd y gwaith yma ei gaffael drwy Fframwaith Isadeiledd a Pheirianneg Sifil Scape.**

Roedd y DU wedi wynebu tywydd garw iawn ym mis Chwefror 2020 pan achosodd Storm Dennis lifogydd difrifol a difrod sylweddol i filoedd o eiddo, rhwydweithiau ffyrdd a threnau, busnesau ac ein hamgylchedd naturiol.

Roedd y storm yn golygu bod afonydd wedi llifo dros eu glannau, ac felly roedd yr Afon Elái (sy'n llifo drwy ardal Tonyrefail) wedi achosi erydiad sylweddol ar yr argloddiau gan gynnwys y rhai o amgylch pont droed Tyn-y-bryn.

Rydyn ni'n gobeithio y bydd y cylchlythyr rheolaidd yma yn rhoi cyfle i ni rannu'r newyddion diweddaraf am y prosiect gyda chi, wrth i ni adlinio sianel yr afon, atgyweirio'r arglawdd ac amnewid pont droed Tyn-y-bryn, sy'n darparu cyswllt allweddol rhwng Lôn y Parc a Heol Tynybryn.

Ynghyd â'r gwaith yma, byddwn ni'n adeiladu coredau bach yn yr afon er mwyn helpu i reoli llif y dŵr. Bydd y coredau yma hefyd yn helpu drwy ddarparu ardaloedd i bysgod gael seibiant wrth iddyn nhw fudo i fyny'r afon.

Ynghyd â hyn, bydd gwaith cysylltiedig yn cael ei gynnal ar y llwybr troed a'r goleuadau stryd. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n dda ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud. Mae'r bont wreiddiol wedi cael ei thynnu oddi ar y safle ac mae dros 100 o gerrig mawr sy'n pwyso dros ddwy dunnell yr un wedi cael eu gosod ar hyd argloddiau'r afon.

Gan ddibynnu ar y tywydd, rydyn ni'n gobeithio y bydd y bont newydd yn cael ei gosod yn ddiweddarach eleni gyda'r prosiect yn cael ei gwblhau dros y gaeaf.



## Ein carfan ar y safle

Mae gyda ni garfan wych o unigolion proffesiynol sy'n gweithio i gyflawni'r prosiect yma, mae hyn yn cynnwys Peirianwyr a Syrfewyr, Rheolwyr Prosiect ac Ecolegwyr. "Rydyn ni'n falch iawn i fod yn cyflawni'r prosiect yma ar gyfer eich cymuned chi" meddai Dean Whitehead, Rheolwr Gwaith Balfour Beatty: "Fodd bynnag, rydyn ni'n ymwybodol y bydd modd i'r prosiect yma darfu ychydig ar y gymuned, hoffen ni ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra rydych chi'n ei wynebu.

"Rydyn ni wedi ymrwymo i fod yn gymydog cyfrifol ac ystyriol - byddwn ni'n ceisio tarfu cyn lleied â phosib ac yn gweithio gyda chi i sicrhau ein bod ni'n gwneud pob dim o fewn ein gallu i fod yn gymydog da.. Fodd bynnag, os oes gyda chi unrhyw bryderon, siaradwch ag aelod o'n carfan safle a byddwn ni'n gwneud ein gorau i helpu."

Balfour Beatty | SCAPE CIVIL ENGINEERING | CONSIDERATE CONSTRUCTORS ASSOCIATE | RHONDDA CYNON TAF

## Sicrhau bod y gymuned yn parhau i symud - gwasanaeth bws am ddim

Hyd nes y bydd y bont droed newydd wedi cael ei gosod yn ddiweddarach eleni, mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cynnig gwasanaeth bws gwennol am ddim i fynd â thrigolion rhwng Heol Tynybryn a Stryd y Felin er mwyn cynnal mynediad i Feddygfa Lôn y Parc a'rFferyllfa. Cadwch lygad am y bws isod wrth iddo deithio ar hyd ei lwybr.




Bydd y gwasanaeth yn gweithredu rhwng 8am a 6.20pm, ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau'r banc).

Bydd yn gwasanaethu'r safle bysiau ar Heol Tynybryn, Stryd Francis, Teras Tylcha Wen, Stryd y Felin Heol Waunrhydd a Heol Gilfach.

Mae'r amseroedd gadael o Heol Tynybryn a Stryd y Felin wedi'u nodi isod:

| O Heol Tynybryn (tu fas i Tynybryn stores) | O Stryd y Felin (ger ei chyffordd â Lôn y Parc) |
|---|---|
| 8am | 8.20am |
| 8.40am | 9.am |
| 9.20am | 9.40am |
| 10am | 10.20am |
| 10.40am | 11am |
| 11.20am | 11.40am |
| 12noon | 12.20 pm |
| 12:40pm | 1pm |
| 1.20pm | 1.40pm |
| 2pm | 2.20pm |
| 2.40pm | 3pm |
| 3.20pm | 3.40pm |
| 4pm | 4.20pm |
| 4.40pm | 5pm |
| 5.20pm | 5.40pm |
| 6pm | 6.20pm |

## Pontio'r bwlch!

Ym mis Mehefin, cafodd y bont droed wreiddiol ei thorri'n ddarnau a'i thynnu o'r safle.

Ar ôl i ni adlinio sianel yr afon ac atgyweirio'rargloddiau, byddwn ni yna'n paratoi'r tir ar gyfer y bont newydd. Mae'r bont newydd yn cael ei dylunio a'i hadeiladu oddi ar y safle
er mwyn sicrhau ei bod yn barod i'w chodi a'i gosod yn ei lle'n ddiweddarach eleni.

Bydd y bont newydd dros 11 metr o hyd a 3.5 metr o led, ac yn gwbl hygyrch.



Mae'r lluniau uchod yn dangos y bont cyn iddi gael ei thynnu oddi ar y safle.

Yn y llun isod mae modd ichi weld sut mae'r ardal yn edrych ar hyn o bryd a'r garfan yn gweithio i osod y cerrig newydd ar yr argloddiau gyda chymorth peiriannau trwm.



### Cofrestrwch er mwyn derbyn y cylchlythyr yma'n uniongyrchol!

Rydyn ni'n gobeithio bod y cylchlythyr yma'n ddefnyddiol i chi. Os hoffech chi gael y newyddion diweddaraf am y prosiect, mae modd ichi gofrestru ar gyfer rhestr bostio ein cylchlythyr. Anfonwch eich enw a'ch cyfeiriad e-bost at: tynybrynbridge@balfourbeatty.com

Neu sganiwch y cod QR yma ar eich ffôn er mwyn cwblhau'r ffurflen ar-lein.

Mae'r cylchlythyr yma ar gael mewn sawl diwyg ar gais. E-bostiwch tynybrynbridge@balfourbeatty.com am ragor o wybodaeth.